

# ADRODDIAD GWRTHWYNEBIADAU

**Cynnig i sefydlu ysgol 'gyflawn' sy'n darparu addysg Gymraeg i ddisgyblion 3-18 oed yng ngogledd y fwrdeistref sirol ac 11-16 oed yn ne'r fwrdeistref sirol**

## **1. Diben yr adroddiad gwrthwynebiadau**

Nod yr adroddiad hwn yw cyfeirio canlyniad y cyfnod gwrthwynebu a ddechreuodd ar 9 Medi 2015 ac a ddaeth i ben ar 6 Hydref 2015. Yn ystod y cyfnod hwn roedd hysbysiad statudol ar gael ar wefan y cyngor dan yr adran Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion, ac fe'i hanfonwyd at yr holl rai ar y rhestr o ymgynghoreion (atodiad A).

## **2. Crynodeb o'r gwrthwynebiadau a gafwyd**

Mae rhai o'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu'n sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd wedi'u hailgyflwyno. Bydd aelodau a fydd eisoes wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad eisoes yn gyfarwydd â'r ymatebion hyn. Fodd bynnag, atgoffir aelodau bod unigolyn yn gallu ailgyflwyno ei sylw blaenorol fel gwrthwynebiad. Felly, dylai Aelodau sicrhau bod y sylwadau hyn a gyflwynir fel gwrthwynebiadau, yn cael eu hailystyried mewn da bryd.

Sicrhawyd bod yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ar gael yn Ystafelloedd yr Aelodau yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd a Chanolfan Ddinesig Port Talbot yn ystod y cyfnod ymgynghori i'w harchwilio ymhellach. Felly, mae sylwadau a gwrthwynebiadau ar gael i holl Aelodau Etholedig Castell-nedd Port Talbot.

Derbyniwyd 5 ymateb yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a chânt eu categoreiddio fel a ganlyn:

Llywodraethwr	2
Rhiant	1
Arall	2

## **Nodir crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu isod**

### **Corff Llywodraethu YG Ystalyfera**

- Nododd y Corff Llywodraethu, er ei fod yn croesawu'r cynnig statudol ynghylch ailstrwythuro'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn CBSCNPT, roedd yn siomedig nad oedd rhai elfennau o'r buddsoddiad cyfredol a'r rhaglen gynllunio yn ddigon clir. Cyflwynodd y corff Llywodraethu nifer o

ymholiadau ynghylch rhaglen waith campws y gogledd; arweinyddiaeth a threfniadau rheoli yn y dyfodol; cyllid a threfniadau ar gyfer campws y de. Mae llythyr y corff llywodraethu ar gael i'w weld, ynghyd â'r holl ohebiaeth arall a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, i'w hystyried gan Aelodau, felly ni chaiff ei nodi gair am air yma. Nodir ymatebion swyddogion i'r ymholiadau a gafwyd yn llawn isod.

### **Corff Llywodraethu Ysgol y Wern**

- Mae'r Corff Llywodraethu'n cefnogi creu ysgol 3 i 18 oed mewn egwyddor, ond mae'r llywodraethwyr yn cyfeirio at eu gohebiaeth a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac maent am ailadrodd eu pryderon a godwyd yn yr ohebiaeth hon. Mae llythyr y corff llywodraethu ar gael i'w weld, ynghyd â'r holl ohebiaeth arall a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu i'w hystyried gan Aelodau, felly ni chaiff ei nodi gair am air yma. Nodir ymatebion swyddogion i'r ymholiadau a gafwyd yn llawn isod.

### **Rhiant**

- Cyflwr yr adeilad yn hen Ysgol Gyfun Sandfields er gwaethaf arian, gwelliannau ychwanegol ac amser ychwanegol i gyflawni'r gwaith. Nid yw'n glir beth fydd yn digwydd o ran y cyfleusterau chwaraeon ar safle Sandfields.
- Mae gan ddisgyblion o'r tu allan i'r sir (Powys) flaenoriaeth o ran cael mynediad i gyfleusterau gwell yn safle'r gogledd dros rieni CNPT sy'n byw yn ne'r fwrdeistref sirol.
- Nid yw'n glir a fydd disgyblion â brodyr a chwiorydd sydd eisoes yn mynd i safle'r gogledd yn Ystalyfera yn gallu dewis mynd i safle'r gogledd. Bydd rhieni'n wynebu anawsterau os bydd plant yn cael eu rhannu ar draws safleoedd.
- Nid aed i'r afael yn llawn eto â phroblem athrawon a fydd yn gorfod teithio rhwng safleoedd.
- Gwadwyd bod pobl heb awdurdod yn cael mynediad i safle Sandfields ond mae pobl sy'n gweithio yn yr ysgol yn dweud bod hyn yn wir.
- Nid yw'n glir beth fydd enw'r ysgol - mae Ystalyfera'n ysgol hen-sefydledig, adnabyddus ag iddi enw da.

### **Peter Black AC**

- Adnewyddu adeiladau ar safle'r de
- Asesu effaith tarfu ar ddisgyblion safle'r de wrth gyrraedd Blwyddyn 12 ac unrhyw effaith oherwydd newid lleoliad.

### **Bethan Jenkins AC**

- Mae Bethan Jenkins AC yn mynegi pryderon ynghylch y cynnig o ran y trefniadau ar gyfer safle'r de gan gynnwys diffyg cynllun cyfeillio; rheini sy'n dewis anfon eu plentyn i ysgol Saesneg yn lle ysgol uwchradd Gymraeg; cyflwr Ysgol Gyfun Sandfields; pryderon diogelwch ynghylch y bont gerddwyr sy'n arwain i iard yr ysgol; yr ardal barcio i fysis yn Sandfields ac

anallu i ddenu athrawon profiadol. Mae'r sylwadau hyn yn union fel a geir yn llythyr sylwadau Bethan Jenkins a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac mae hwn ar gael, ynghyd â'r holl ohebiaeth arall a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, i Aelodau eu hystyried, felly ni chaiff ei nodi gair am air yma. Nodir ymatebion swyddogion i'r ymholiadau a gafwyd yn llawn isod).

### **Mae ymateb swyddogion i'r gwrthwynebiadau a godwyd (mae'r rhain wedi'u categoreiddio) i'w gweld isod:**

Yn ogystal â'r Adroddiad Gwrthwynebu hwn, rhoddwyd yr Adroddiad Ymgynghori i'r Aelodau. Gofynnir iddynt ailddarllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Adroddiad Gwrthwynebu ar y sail bod yr ymatebion a roddwyd gan swyddogion yn parhau i fod yn berthnasol i'r ymholiadau/materion a godwyd gan y rhai sydd wedi ymateb yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

### **Rhaglen waith Campws y Gogledd**

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y gwaith a gynlluniwyd ar gyfer campws y gogledd, ac mae tua £17.5 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer gwelliannau, gan gynnwys ailfodelu adeilad sydd eisoes yn bod ar gyfer addysg gynradd.

I gyflawni'r cynnig, mae angen gwaith ailfodelu yn safle YG Ystalyfera, y sicrhawyd arian rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif LIC ac adnoddau'r cyngor ar ei gyfer. Fodd bynnag, mae cyflwr gwael rhai o'r adeiladau'n golygu, hyd yn oed heb y newid sefydliadol a amlinellir yn y cynnig, y byddai angen ailfodelu sylweddol er mwyn cynnal addysg uwchradd Gymraeg ar y safle. Fel y cyfryw, mae'r gwaith i adeiladu blociau addysgu uwchradd wedi dechrau.

### **Lle gwyrdd ac ardaloedd chwarae/chwaraeon**

Bwletin Adeiladu 98 a 99 yw'r dogfennau arweiniol y mae'r cyngor yn eu dilyn o ran sicrhau bod digon o ardaloedd chwarae/chwaraeon a mannau agored eraill sy'n ofynnol ar gyfer gofynion cynradd ac uwchradd. Caiff yr arweiniad hwn ei gymhwyso mewn perthynas â'r cynnig hwn ac unrhyw ddyluniad safle.

Bydd gan ddisgyblion sy'n mynd i gampws y de fynediad i gyfleusterau chwaraeon addas.

### **Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

Mae gwybodaeth am y broses rheoli newid wedi'i chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori. Os cytunir ar y cynnig, sefydlir Corff Llywodraethu dros dro a fydd yn gyfrifol am benodi pennaeth a dirprwy bennaeth. Bydd y Pennaeth, ynghyd â'r Corff Llywodraethu dros dro, yn goruchwylio strwythur staffio'r ysgol newydd. Y Corff Llywodraethu fydd yn penderfynu ar amserlenni ar gyfer penodiadau a newidiadau posib i'r strwythur staffio.

## **Cyllid ac Ariannu**

Nid yw'n bosib ymrwymo i fanylion y gyllideb ar hyn o bryd na gwneud sylw ar fformatau ariannu posib ar gyfer yr ysgol newydd. Mae'r effaith ariannol a dybir wedi'i hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori. Cydnabyddir y bydd ysgol 3 i 18 oed dros ddau safle yn cyflwyno heriau dyrannu cyllideb, ac mae gwaith yn cael ei wneud gan swyddogion y cyngor i sicrhau bod lefelau ariannu priodol yn cael eu cyflwyno i gynnal y drefniadaeth newydd. Cefnogir ariannu'r ysgol gan lwfans safle a rennir.

## **Adeiladau Campws y De**

Y bwriad tymor hir yw disodli'r adeiladau presennol ar safle gwag Ysgol Gyfun Sandfields/Ysgol Gynradd Traethmelyn ag adeilad ysgol newydd wrth i arian cyfalaf ddod ar gael. Tan hynny, clustnodir £4.5miliwn o fuddsoddiad ar gyfer gwaith ailfodelu i wella'r ddarpariaeth sydd eisoes yn bod. Ceir cynnydd yn y swm gwreiddiol a ddyrannwyd a bydd yn caniatáu cyflawni gwaith mwy helaeth.

Mae arian ar gael yng nghyllideb arian cyfalaf Band A Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif y cyngor ar gyfer y gwaith hwn, a rhagwelir cyflwyno adeiladau ysgol newydd ar gyfer bandiau cyllid Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif yn y dyfodol.

Fel a nodwyd yn yr adroddiad ymgynghori, mae Ysgol Gyfun Sandfields yn ysgol uwchradd sy'n gweithredu lle mae gan ddisgyblion fynediad i amrywiaeth llawn o bynciau'r cwricwlwm, y mae angen cyfleusterau arbenigol ar rai ohonynt, megis cyfarpar technoleg a gwyddoniaeth. Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar angenrheidiol ar gael ar hyn o bryd ar y safle hwn. Mae'r safle'n fawr ac mae potensial yno i greu lle ar gyfer adeilad ysgol newydd yn y dyfodol.

Fel rhan o ddatblygu cynigion ar gyfer Ysgol Bae Baglan, cynhaliwyd asesiad effaith traffig manwl gan ymgynghorwyr allanol. Roedd yr asesiad hwn wedi ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio safle Ysgol Gyfun Sandfields/Ysgol Gynradd Traethmelyn ar gyfer ysgol uwchradd Gymraeg. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod risgiau materion lle yn yr ardal yn fach ac y byddai Cynllun Cludiant Ysgol cadarn yn lliniaru unrhyw effaith bosib.

## **Defnydd gan y gymuned**

Fel y mae'r cyngor yn ei ddisgwyl o'r holl ysgolion uwchradd, lle nad yw cyfleusterau'n cael eu defnyddio gan ddisgyblion, dylai'r rhain fod ar gael i'r gymuned. Mae'r adeilad newydd ar safle YG Ystalyfera yn gyfle i wella'r ddarpariaeth gymunedol bresennol.

## **Cyfleusterau cyn-ysgol**

Fel a nodwyd yn yr adroddiad ymgynghori, mae'r cyngor yn agored i ystyried cynllun i gysylltu darpariaeth cyn-ysgol â datblygiad addysg cyfnod cynradd yn safle YG Ystalyfera. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau'r cyllid sydd ar gael dan

gynllun ysgolion yr 21ain ganrif yn golygu y caiff hyn ei ddefnyddio ar gyfer darparu cyfleusterau addysg yn unig. Byddai angen i ddarparwyr cyn-ysgol sicrhau arian cyfalaf ar wahân i gefnogi darpariaeth ar y safle.

### **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Ar hyn o bryd nid oes bwriad i drefnu darpariaeth ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) fel rhan o'r cynnig hwn. Fodd bynnag, adolygir y mater hwn yn rheolaidd a lle caiff angen ei nodi'n glir, rhoddir ystyriaeth i'w ddatblygiad.

### **Derbyn disgyblion i gampws y de neu'r gogledd**

Ymatebwyd i bryderon ynghylch brodyr a chwiorydd yn cael eu haddysgu ar safleoedd gwahanol yn yr adroddiad ymgynghori. Dan y cynnig hwn, o 1 Medi 2017, bydd disgyblion Blwyddyn 6 o ddalgylchoedd YGG Castell-nedd, YGG Rhos Afan ac YGG Tyle'r Ynn a fyddai fel arall wedi trosglwyddo i YG Ystalyfera, yn derbyn eu haddysg uwchradd Gymraeg 11-16 oed yng nghampws y de, ar safle gwag Ysgol Gyfun Sandfields/Ysgol Gynradd Traethmelyn gynt. Byddai disgyblion sy'n mynychu ysgolion Cymraeg mewn mannau eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot yn trosglwyddo i YG Ystalyfera yn y gogledd, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Yn y de, gallai olygu o bosib y bydd gan rai teuluoedd blant sy'n cael addysg uwchradd Gymraeg ar ddau safle gwahanol. Disgwylir y bydd yr holl ddisgyblion yn mynd i'w campws dynodedig, fodd bynnag ystyrir pob achos unigol yn ôl ei deilyngdod.

Rhagwelir y bydd Corff Llywodraethu ac arweinyddiaeth dros dro yr ysgol newydd yn gweithio gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo, gan gynnwys llywodraethwyr a rhieni, i hyrwyddo'r ysgol newydd fel y bo'n briodol. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn ystod yr ymgynghoriad a cheisiwyd barn y rhai y mae'r cynnig yn y de yn effeithio arnynt.

Yn draddodiadol, mae YG Ystalyfera wedi darparu addysg Gymraeg uwchradd i ddisgyblion o dde Powys. Mae'r cynnig yn cynnal y traddodiad hwn.

### **Staff yn addysgu ar y ddau safle**

Cyfrifoldeb tîm arweinyddiaeth yr ysgol fydd rheoli'r cwricwlwm a'r strwythur addysgu. Fodd bynnag, nodwyd yn glir nad oes disgwyl i staff symud rhwng safleoedd mewn diwrnod, ond yn hytrach, byddai trefniadau amgen yn gymwys, megis staff yn gweithio ar un safle am ddiwrnod neu nifer o ddiwrnodau, gan ddibynnu ar angen. Byddai rhai aelodau o staff yn gweithio'n barhaol ar y naill safle neu'r llall i sicrhau cysondeb i ddisgyblion.

### **Mynediad heb ganiatâd i safle Sandfields**

Gwnaed sylwadau ynghylch diogeledd y safle yng nghampws y de. Mae'r cyngor yn dweud unwaith eto bod Ysgol Gyfun Sandfields ac Ysgol Gynradd Traethmelyn yn rheoli safle eu hysgolion yn briodol, ac mae'r archwiliad diogelu diweddaraf

(Mehffin 2015) yn Ysgol Gyfun Sandfields yn dweud bod *'Polisiau a gweithdrefnau clir ar waith o ran rheoli'r ysgol a'i diogeledd'* ac mae'n argymhell y dylai'r ysgol *'rannu'r arferion diogelu gwych'* ar draws yr awdurdod lleol. Eto, gall y cyngor gadarnhau nad oes hawliau tramwy cyhoeddus drwy'r naill safle na'r llall.

### **Enw'r ysgol**

Os cymeradwyir rhoi'r cynnig ar waith, penderfyniad cymuned yr ysgol fydd enwi'r ysgol newydd. Felly, bydd hyn yn cynnwys cyfraniadau gan staff a llywodraethwyr yr ysgol, a chan y disgyblion, sydd yr un mor bwysig.

### **Addysg Gymraeg Ôl-16**

Bydd hyn y parhau i fod ar gael ar safle YG Ystalyfera ac felly, ni fydd newid i'r ddarpariaeth gyfredol na threfniadau teithio. Wrth i gampws safle'r de gynyddu mewn maint a chyrraedd yr ystod oed 11 i 16 lawn, bydd angen ystyried manteision parhau ag addysg Gymraeg 6<sup>ed</sup> Dosbarth ar un safle dros y potensial o gyflwyno darpariaeth ategol yn ne'r fwrdeistref sirol.

### **Trosglwyddo disgyblion i ddarpariaeth uwchradd Gymraeg**

Ailfynegwyd pryderon y gallai'r newidiadau a gynnigir a'r diffyg buddsoddiad canfyddedig yng nghampws y de arwain at rieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i ysgolion uwchradd Cymraeg. Mae'r cyngor yn credu y bydd mwy o fynediad i addysg Gymraeg uwchradd yn cynyddu niferoedd disgyblion sydd am gael eu haddysgu mewn ysgolion Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol. Mae'r cynnig yn ceisio mynd i'r afael â phryderon a fynegwyd y gallai'r pellter i deithio i ddarpariaeth uwchradd olygu bod rhai rhieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i ysgolion cynradd Cymraeg o gwbl, gan ddewis ysgolion cynradd Saesneg yn lle, oherwydd y byddai darpariaeth uwchradd Saesneg yn agosach i'r cartref.

Er bydd y cynnig hwn mewn egwyddor yn lleihau nifer yr ysgolion cynradd Cymraeg, ni chaiff darpariaeth gynradd ei lleihau ond ei gwella yn y lleoliad 3-18 oed. Yn ogystal, caiff mynediad i ddarpariaeth uwchradd yn lleol gyda llai o deithio i'r ysgol ei gynyddu drwy gyflwyno addysg dros ddau safle. Mae addysg Gymraeg yn ddewis i'r holl ddisgyblion o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg ac mae'r cynnig hwn yn cynyddu'r cyfleoedd i fwy o ddisgyblion gael mynediad i addysg Gymraeg.

### **Cefnogi disgyblion**

Fel a nodwyd yn yr adroddiad ymgynghori, gall trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd fod yn adeg o bryder a straen i rai disgyblion. Honnir na fydd gan gampws y de yr un trefniadau cefnogi cyfoedion i helpu â'r broses bontio. Mae'n wir na fydd gan y garfan gyntaf o ddisgyblion Blwyddyn 7 ar gampws y de y gefnogaeth a'r arweiniad gan ddisgyblion hŷn bob dydd. Er bod system 'gyfeillio' yn ddefnyddiol i ddisgyblion Blwyddyn 7 sy'n symud i ysgol fawr gyda llawer o ddisgyblion hŷn i sicrhau bod y disgyblion iau yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ni fydd y plant sy'n symud i gampws y de yn wynebu'r un gwahaniaeth oed ac felly bydd y system gyfeillio yn wahanol. Mewn sefyllfa o'r fath, gall disgyblion

Blwyddyn 7 gefnogi ei gilydd ac mae hyn yn gyfle i ddisgyblion Blwyddyn 7 gael y blaen ar ddatblygu nodweddion arweinyddiaeth a dinasyddiaeth.

### **Manteision y cynnig**

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r adroddiad yn amlinellu'n glir fanteision y cynnig ac yn esbonio pam y mae angen i ddarpariaeth safle'r de ddechrau gyda disgyblion Blwyddyn 7 yn unig a thyfu blwyddyn ar ôl blwyddyn. Fel yr eglurwyd yn yr adroddiad ymgynghori, pe bai safle'r de yn agor fel ysgol annibynnol, ar wahân yna byddai goblygiadau ar gyfer YG Ystalyfera oherwydd gallai'r ysgol o bosib gollu oddeutu 600 o ddisgyblion mewn blwyddyn. Byddai gan hyn oblygiadau sylweddol i YG Ystalyfera, a byddai'n tarfu'n sylweddol ar yr ysgol. Byddai tarfu hefyd ar ddisgyblion a fydd efallai'n gorfod symud i'r de ar ôl iddynt ymgartrefu yn YG Ystalyfera. Gallai hyn gael effaith negyddol ar eu haddysg a'u lles.

Byddai cynnal y ddau safle fel un ysgol a chynyddu nifer y disgyblion yng nghampws y de yn raddol yn golygu na fydd amharu ar addysg disgyblion sydd eisoes yn YG Ystalyfera oherwydd eu bod yn gorfod symud i safle gwahanol. Gan y bydd un strwythur arweinyddiaeth ar gyfer y ddau safle, gall staff gael y cyfle i weithio yn y gogledd a/neu'r de heb orfod newid eu swyddi. Mae hefyd yn golygu y bydd staff profiadol o YG Ystalyfera yn darparu sylfaen gadarn yn y safle newydd ar gyfer datblygiad ychwanegol a sicrhau bod safonau addysgol yr un peth i'r holl ddisgyblion, ni waeth ble maent yn byw yn y sir.

# Rhestr o Ymgylgoreion - Atodiad A

Disgyblion

Ysgolion Cymraeg (gan gynnwys de Powys)

Rhieni

Darpar rieni

Staff yr ysgol

Y Corff Llywodraethu

Grwpiau cymunedol/defnyddwyr yr ysgol

---

Holl ysgolion eraill CNPT

---

Awdurdod Ffiniol - Abertawe/Pen-y-bont ar Ogwr/Sir Gâr/Powys/RCT

---

Esgobaethau - Esgobaeth Mynyw, Abertawe

---

Yr Eglwys yng Nghymru - Esgobaeth Llandaf, Bro Morgannwg

---

Undebau Llafur - Trefnwyr Rhanbarthol: 3 sy'n cynrychioli staff nad ydynt yn addysgu a 6 ar gyfer staff addysgu

---

NAASH (Fforwm Ysgolion Uwchradd)

LLAN (Fforwm Ysgolion Cynradd)

---

AS (Aberafan) - Stephen Kinnock

AS (Castell-nedd) - Christina Rees

---

AC (Aberafan) - David Rees

AC (Castell-nedd) - Gwenda Thomas

---

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol

(Gorllewin De Cymru) - Peter Black/ Suzy Davies/Altaf Hussain /Bethan Jenkins

---

Aelodau Etholedig CNPT

---

Cyngor Cymuned Ystalyfera

Cyngor Tref Ystradgynlais

---

Is-adran Rheoli Ysgolion LIC

---

Estyn

---

Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)

---

Uned Cludiant Integredig CBSCNPT



---

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

---

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys y Blynyddoedd Cynnar)

---

Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf

---

Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)

---

*CBSCNPT fel yr awdurdod cynnal a chadw -*

Uwch-reolwyr (Addysg) CNPT

Swyddog Derbyniadau CNPT

Swyddog ERW CNPT

Seicolegwyr Addysg CNPT

TCADY CNPT

Cefnogi Llywodraethwyr CNPT

Adnoddau Dynol CNPT

Gwasanaethau Cyfreithiol CNPT

Cynllunio CNPT

Rheoli Eiddo CNPT

Gwasanaeth Cefnogi Dysgu CNPT

---